

# POLISI IAITH A CHYNLLUN GWEITHREDU'R GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR

## CYFLWYNIAD

Mae 'Amgylchedd Ddwieithog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'r tair colofn sy'n cynnal *Strategaeth 2030 – Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol*. Mae Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol yn ymhelaethu ar hyn ac yn manylu ar y sut y bydd yn Brifysgol yn cynllunio ar gyfer cynnal a datblygu'r amgylchedd hwnnw. Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r weledigaeth yn y Strategaethau drwy amlinellu'r camau y bydd Prifysgol Bangor yn eu cymryd er mwyn:

- sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol sy'n cael eu gosod arni drwy'r Safonau Iaith Gymraeg
- sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n ganolog i fywyd a gwaith y Brifysgol
- sicrhau bod y Brifysgol yn cyfrannu'n rhagweithiol tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## RHYCHWANT Y POLISI

Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at waith y Brifysgol gyda myfyrwyr, staff, unigolion a chyrff o'r tu allan i'r Brifysgol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae'r polisi'n berthnasol i bob canolfan adnoddau / cost ym Mhrifysgol Bangor yn ogystal ag unrhyw is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r Brifysgol ac unrhyw gwmni trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Brifysgol yng nghyd-destun y gwasanaeth hwnnw. Cyfrifoldeb y ganolfan gost sydd yn gyfrifol am gyntundebau trydydd parti penodol fydd sicrhau cydymffurfiaeth y trydydd parti â'r polisi.

## EGWYDDORION CRAIDD

Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu'r egwyddorion sy'n sail i waith Comisiynydd y Gymraeg, sef:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Mae hyn yn golygu y bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau:

1. Y bydd y Brifysgol yn annog ac yn cefnogi myfyrwyr, staff ac eraill i ddefnyddio'r Gymraeg.
2. Y bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol yn cael eu hyrwyddo'n rhagweithiol.

3. Y bydd ein myfyrwyr yn cael cyfleoedd i astudio eu meysydd pwnc drwy'r Gymraeg ac yn derbyn cefnogaeth i wneud hynny.
4. Y bydd ein gwasanaethau o'r un ansawdd yn Gymraeg a Saesneg drwy fod yr un mor weledol â'i gilydd, yr un mor hawdd eu defnyddio a'r un mor effeithiol.
5. Y bydd y Brifysgol yn cofnodi dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) ac yn darparu gwasanaethau yn unol â'r dewis iaith hwnnw.
6. Y bydd ein polisiau a systemau recriwtio staff yn sicrhau bod capasiti dwyieithog y Brifysgol yn cael ei ddatblygu ar draws ystod a graddfeydd swyddi.
7. Y bydd ein staff yn cael eu hannog ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng ngweithleoedd y Brifysgol. Bydd rhai o weithleoedd y Brifysgol (e.e. Pontio) yn rhai dynodedig o safbwynt sicrhau mai'r Gymraeg yw'r brif iaith waith.<sup>1</sup>
8. Y bydd ein polisiau, ein cynlluniau a'n prosiectau yn ystyried yn llawn sut i roi lle canolog a naturiol i'r Gymraeg heb danseilio statws na defnydd o'r Gymraeg.
9. Y byddwn yn cynllunio'n rhagweithiol a blaengar er lles y Gymraeg gan ddefnyddio arbenigedd ymchwil ac arbenigedd cymhwysol er budd y defnydd o'r Gymraeg yn y Brifysgol ac yn ehangach.
10. Y byddwn yn cofnodi penderfyniadau, prosesau a chwynion sy'n berthnasol i'r Gymraeg.

## CYFRIFOLDEB

Cyfrifoldeb Dirprwy Is-Ganghellor y Gymraeg (sy'n aelod o'r Pwyllgor Gweithredu ac sy'n cadeirio Pwyllgor yr Iaith Gymraeg a Diwylliant) yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ar draws y Brifysgol. Penaethiaid Colegau ac ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gyfrifol am y polisi o fewn cwmpas eu cyfrifoldeb nhw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw drydydd parti sy'n gweithredu ar eu rhan yn cydymffurfio â'r polisi.

## DEDDFWRIAETH A DOGFENNAU PERTHNASOL

*Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Dylid cyfeirio at yr [Hysbysiad Cydymffurfio](#) y mae'r Brifysgol wedi'i dderbyn.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

*Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg*

*Coleg Cymraeg Cenedlaethol: Cynllun Academaidd 2022-27*

*Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol*

---

<sup>1</sup> Mae hyn yn cydnabod y ffaith fod y Brifysgol mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gweler [adroddiad](#) y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

*Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025*

*Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg: Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg*

*Fframwaith Rheoleiddio MEDR*

### CYNLLUNIO, CYNNAL A DATBLYGU'R DDARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

1. Bydd y Brifysgol yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg (e.e. trwy greu a chynnal swyddi darlithio cyfrwng Cymraeg).
2. Bydd y Brifysgol yn ystyried effaith unrhyw newidiadau staffio ar ehangder a dyfnder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
3. Bydd y Brifysgol yn chwarae rhan flaenllaw yn holl weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
4. Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan ganolog o Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol (ac o unrhyw gynlluniau sy'n cefnogi'r strategaeth honno) ac o waith cynllunio pob Coleg ac Ysgol.
5. Wrth gyflwyno cynigion am gyrsiau a modiwlau newydd, y mae disgwyl i bob ysgol academaidd ystyried posibiladau darparu'r cwrs neu'r modiwl drwy'r Gymraeg. Bydd system rheoli cwricwlwm y Brifysgol yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r cynnig.
6. Bydd unigolyn dynodedig gyda chyfrifoldeb am faterion Cyfrwng Cymraeg ar Fwrdd Rheoli pob Coleg a phob Ysgol.
7. Bydd cynrychiolydd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ar Fwrdd Astudiaethau a phwyllgor staff a myfyrwyr bob Ysgol.
8. Fel rhan o'r drefn sicrhau ansawdd o fewn y Brifysgol, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn elfen y disgwylir i bob ysgol academaidd roi sylw iddi yn y ffurflenni arolwg blynyddol y mae gofyn iddynt eu llenwi ar gyfer pob cwrs.
9. Wrth drefnu cyfnodau lleoliadau proffesiynol i fyfyrwyr, bydd ysgolion academaidd yn gwneud pob ymdrech i geisio sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu rhoi mewn lleoliadau sydd yn caniatáu iddynt ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg.
10. Wrth ddatblygu cynlluniau cyflogadwyedd a sgiliau byd gwaith i fyfyrwyr, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gofynion gweithleoedd dwyieithog yng Nghymru yn rhan ganolog o'r cynlluniau.
11. Bydd y Brifysgol yn sicrhau y gall myfyrwyr sefyll arholiadau a chyflwyno aseiniadau yn y Gymraeg, beth bynnag fo'r iaith addysgu ar y modiwl, ac eithrio mewn modiwlau ym maes ieithoedd, lle mae meistrolaeth o'r iaith yn un o feini prawf yr asesiad.<sup>2</sup>

---

<sup>2</sup> Gweler Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig ar y drefn gyfieithu ar gyfer hyn.

12. Bydd y Brifysgol yn sicrhau y gall myfyrwyr gyflwyno asesiadau llafar yn Gymraeg, gan ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os nad yw'r sawl sy'n asesu yn siarad Cymraeg.
13. Bydd y Brifysgol yn sicrhau y gall myfyrwyr ymwneud â'r system gwyno / apeliadau / disgyblu drwy gyfrwng y Gymraeg.
14. Bydd pob ysgol yn sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.
15. Bydd dysgu dwyieithog ym Mangor yn ymwneud â chynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a'u paratoi ar gyfer y gweithle. Ni fydd dysgu dwyieithog ar unrhyw gyfrif yn cael ei ddefnyddio i lastwreiddio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Brifysgol yn cydnabod na fydd yn bosib i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yng nghyd-destun eu hastudiaethau heb fod elfen o gefnogaeth cyfrwng Cymraeg ar gael iddynt fel rhan o'r cwrs.

#### HYRWYDDO DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

1. Bydd y Brifysgol yn rhagweithiol wrth annog myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Bydd y Brifysgol yn gweithredu system gofrestru diofyn ar gyfer myfyrwyr sydd wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Bydd y myfyrwyr hyn yn cael eu cofrestru'n syth ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg lle mae modiwl cyfatebol yn Saesneg hefyd yn bodoli.
3. Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei marchnata'n drwyadl trwy ddeunyddiau a digwyddiadau penodol Gymraeg a Chymreig (e.e. cyfryngau cymdeithasol, prosiectws, ysgolion undydd, gwaith cyswllt ysgolion).
4. Bydd gwybodaeth am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo'n rhagweithiol yn ystod Dyddiau Agored, fel rhan o'r rhaglen ganolog ac fel rhan o ddarpariaeth ysgolion a cholegau unigol.
5. Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a bywyd Cymraeg y Brifysgol yn cael lle amlwg yn y rhaglen ganolog o weithgareddau'r Wythnos Groeso ac yn rhaglen Ysgolion a Cholegau unigol.

#### CEFNOGI MYFYRWYR

1. Bydd Canolfan Bedwyr yn cynnig cefnogaeth sgiliau iaith Gymraeg i fyfyrwyr sydd yn siarad Cymraeg ac eisiau cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd Canolfan

Bedwyr hefyd yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n ymgeisio ar gyfer Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Gymraeg Cenedlaethol.

2. Bydd y Brifysgol yn cynnig cyfleoedd am ddim i fyfyrwyr ddysgu Cymraeg drwy Ganolfan Bedwyr a Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin.
3. Bydd Cysgliad ar gael ar holl gyfrifiaduron y Brifysgol yn ogystal â rhyngwynebau Cymraeg rhaglenni Microsoft.
4. Bydd llwyfannau a systemau dysgu sy'n wynebu myfyrwyr (e.e. Blackboard) yn ddwyieithog Bydd ein defnydd o gymorthyddion dysgu wedi'u gyrru gan AI yn cefnogi dysgu ac addysgu dwyieithog.
5. Bydd y Brifysgol yn darparu cefnogaeth astudio a cefnogaeth gyrfa, yn ychwanegol i'r gefnogaeth gan Ysgolion Academaidd, yn Gymraeg.
6. Bydd gwasanaethau gofal a chynhaliol y Brifysgol ar gael i fyfyrwyr yn Gymraeg.
7. Bydd rhai cynlluniau cefnogi myfyrwyr sy'n cael eu datblygu'n benodol i gefnogi myfyrwyr Cymraeg yn cael eu datblygu yn Gymraeg yn unig.
8. Bydd cymorth cwnsela a iechyd meddwl i fyfyrwyr ar gael yn Gymraeg.
9. Bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn darparu llety dynodedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac yn hyrwyddo'r llety hwn i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

## YMCHWIL

1. Bydd y Brifysgol yn cefnogi a hyrwyddo gwaith academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Bydd y Brifysgol yn eiriol dros waith ymchwil Cymraeg ei iaith mewn fforymau Cymreig a Prydeinig (e.e. yng nghyd-destun REF).
3. Pan fydd unigolion (staff a myfyrwyr) neu grwpiau ymchwil yn cynnal ymchwil gyda'r cyhoedd yng Nghymru, bydd dewis iaith yr unigolion yr ymdrinnir â hwy yn cael ei barchu (e.e. wrth gynnal grwpiau ffocws neu wrth rannu holiaduron). Os oes anawsterau'n codi o ran prosesau dilysu ar gyfer holiaduron, bydd yr ysgol academaidd yn egluro'r sefyllfa wrth yr unigolion perthnasol ac yn darparu cyfieithiad answyddogol o'r holiadur er mwyn hwyluso dealltwriaeth y sawl sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil. Pan fydd ysgol academaidd yn darparu cyfieithiad answyddogol o holiadur, bydd ar gael yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Cyfrifoldeb Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd, drwy eu prosesau cymeradwyo, fydd sicrhau fod y ddarpariaeth ddwyieithog hon ar gael.
4. Pan nad yw mesur ymchwil ar gael yn y Gymraeg, bydd y Brifysgol yn ystyried a oes modd edrych yn rhagweithiol ar y sefyllfa, er enghraifft, drwy gynnig cyngor ynglŷn â pharatoi cyfieithiad safonol a llunio rhestr o ofynion ar gyfer ei ddilysu'n ieithyddol.

5. Wrth fwydo i drafodaethau ar AI, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ein cryfderau ym maes modelau iaith mawr a'r Gymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn y drafodaeth gyda'r amcan o sicrhau bod allbwn AI yn cynnwys y Gymraeg i'r graddau mwyaf posib.
  
6. Ble bod hynny'n bosib, bydd y Brifysgol yn cyfrannu at wella mynediad at ddata ar y Gymraeg, ochr yn ochr â data am yr hyn sy'n gwneud bywyd yng Nghymru yn wahanol, drwy ddefnyddio Data Agored, i alluogi darparwyr AI ledled y byd i roi sylw i anghenion defnyddwyr Cymraeg.

## Y GYMRAEG A GWASANAETHAU

Mae canllawiau a chefnogaeth i ddatblygu a chynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ar gael gan Ganolfan Bedwyr.

1. Bydd y Brifysgol yn darparu gwasanaethau yn yr iaith y mae'r defnyddiwr yn dymuno ei ddefnyddio neu'n ddwyieithog:
  - Bydd 'dewis iaith' myfyrwyr wedi'i gofnodi yn y system berthnasol.
  - Bydd 'dewis iaith' staff wedi'i gofnodi yn y system berthnasol.
  - Bydd 'dewis iaith' aelodau'r cyhoedd wedi'i gofnodi gyda gwasanaethau penodol, pan fo'n rhesymol ac ymarferol gwneud hynny.
2. Bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau bod ei gwasanaethau i fyfyrwyr a'r cyhoedd o'r un ansawdd yn Gymraeg a Saesneg drwy fod yr un mor weledol â'i gilydd, yr un mor hawdd eu defnyddio ac yr un mor effeithiol. Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i wasanaethau:
  - wyneb yn wyneb
  - ar y ffôn
  - ysgrifenedig
  - ar-lein
  - peiriannau a phlatformau hunan wasanaeth
  - apiau
  - platformau sgwrsio ('chat')

Bydd defnydd y Brifysgol o AI wrth gynllunio a chynnal gwasanaethau yn parchu egwyddorion y Safonau Iaith.

3. Bydd y Brifysgol yn cynnig gwasanaeth cyswllt cyntaf yn Gymraeg. Bydd arwydd ym mhob derbynfa yn nodi bod croeso i ddefnyddio Cymraeg yn y dderbynfa. Bydd staff derbynfa yn gwisgo bathodyn / lanyard iaith gwaith. Bydd systemau awtomeiddio galwadau ffôn yn caniatáu dewis opsiynau Cymraeg.
4. Bydd cyhoeddiadau, holiaduron, ffurflenni, systemau a dogfennau'r Brifysgol sydd wedi'u hanelu at fyfyrwyr a'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
5. Bydd unrhyw arwyddion gwybodaeth cyhoeddus (yn cynnwys arwyddion dros dro) mewn unrhyw fan yng Nghymru y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdano yn ddwyieithog.
6. Bydd deunyddiau sydd yn cael eu harddangos mewn cyfarfodydd i fyfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog
7. Bydd fideos sy'n hyrwyddo'r Brifysgol a'i hadrannau neu sy'n cyflwyno gwybodaeth am y Brifysgol i fyfyrwyr a'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog ac yn cyrraedd safonau hygrychedd (e.e. drwy drawsgrifio) o safbwynt y Gymraeg.
8. Bydd Datganiadau i'r Wasg yng Nghymru yn ddwyieithog.

9. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r deunyddiau yn 4-8 ar gael ar yr un pryd. Nid oes rhaid i fersiynau Cymraeg a Saesneg fod yn union yr un fath. Y nod yw eu bod yn ateb gofynion y gynulleidfa darged. Os yw tesun Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnwys yn yr un cyhoeddiad / yn cael eu harddangos ar yr un pryd, bydd y fersiwn Gymraeg uwch ben y fersiwn Saesneg neu bydd y fersiwn Gymraeg ar y chwith.
10. Bydd teitlau ar adeiladau ac eiddo'r Brifysgol sydd ag enwau swyddogaethol, yn Gymraeg a Saesneg; bydd adeiladau sy'n coffáu unigolion ar ffurf 'Adeilad ...' neu 'Neuadd ...' yn unig.
11. Bydd gwefan y Brifysgol ac apiau sydd yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr a'r cyhoedd yn ddwyieithog.
12. Bydd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol ac adrannol yn ddwyieithog a byddant yn weithredol yn Gymraeg ac yn Saesneg naill ai drwy un cyfrif dwyieithog neu gyfrifon ar wahân.
13. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod cyfle i fyfyrwyr, aelodau'r cyhoedd a chynrychiolwyr cyrff a sefydliadau o Gymru ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yn y cnawd, cyfarfodydd ar-lein a chyfarfodydd hybrid. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu er mwyn hwyluso hyn os oes angen neu bydd hwylusydd iaith yn bresennol.
14. Bydd unrhyw gyhoeddiadau ar system annerch gyhoeddus yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
15. Wrth drefnu a hysbysebu digwyddiadau cyhoeddus bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.
16. Yn unol â thraddodiad y Brifysgol, bydd y Gymraeg yn ganolog i seremonïau graddio.
17. Bydd y Brifysgol yn darparu canllawiau ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn darlithoedd cyhoeddus a chynadleddau cyhoeddus.
18. Bydd y Brifysgol yn hysbysebu ac yn croesawu ceisiadau am grantiau yn Gymraeg a Saesneg ac yn gweinyddu'r broses yn ôl dewis iaith yr ymgeisydd.
19. Bydd y Brifysgol yn croesawu ceisiadau tendr yn Gymraeg a Saesneg ac yn gweinyddu'r broses yn ôl dewis iaith yr ymgeisydd. Bydd y Brifysgol yn cyhoeddi gwahoddiad i dendro am gontract yn Gymraeg os yw pwnc y gwahoddiad i dendro yn awgrymu y dylai gael ei gyhoeddi yn Gymraeg neu os yw'r gynulleidfa / disgwyliadau yn awgrymu y dylai gael ei gyhoeddi yn Gymraeg.
20. Bydd hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yn ddwyieithog lle bynnag y bydd yn cael ei dangos. Bydd hyn yn cynnwys enw'r Brifysgol a'i Chanolfannau Adnoddau mewn logo, templedi brand, templedi PowerPoint, Canva, penawdau llythyrau, gwahoddiadau ac eitemau tebyg. Bydd gwybodaeth ac enw'r Brifysgol yn dilyn yr un patrwm lle bynnag y caiff ei arddangos yn barhaol (e.e. ar arwyddion, cerbydau,

ysgrifen ar adeilad, arddangosfa neu gyhoeddiadau). Ym mhob achos bydd y Gymraeg yn dod yn uchaf neu'n gyntaf.

## Y GYMRAEG A STAFF: DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GWAITH

Mae cefnogi staff i ddysgu Cymraeg a defnyddio eu Cymraeg yn llafar ac yn ysgrifenedig yn un o egwyddorion sylfaenol Strategaeth y Gymraeg Mae'r Brifysgol yn amcanu at ddefnydd arloesol o'r Gymraeg yn y gwaith, yn unol â diffiniad Comisiynydd y Gymraeg o fodelau defnydd mewnol.<sup>3</sup> Mae canllawiau a chefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ar gael gan Ganolfan Bedwyr.

1. Bydd rheolwyr yn dilyn y *Cod Ymarfer ar Benodi Staff yn Unol â'r Safonau Iaith Gymraeg* drwy gydol y broses recriwtio a phenodi staff. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i bob swydd, yn cynnwys swyddi dros dro sy'n cael eu gwneud yn barhaol a swyddi sy'n cael eu hysbysebu drwy benhelwyr
2. Bydd y Brifysgol yn gwirio dewis iaith staff ac yn ei gofnodi yn y system berthnasol neu yn caniatáu i staff nodi eu dewis iaith mewn systemau hunan-adrodd.
3. Bydd holl wasanaethau corfforaethol y Brifysgol, yn cynnwys unrhyw ffurflenni, systemau ac yn y blaen, ar gael i staff yn Gymraeg a Saesneg.
4. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod potensial i AI i hwyluso defnyddio Cymraeg yn y gwaith. Bydd y Brifysgol yn cefnogi defnydd o AI gan staff pan fo'r defnydd hwnnw'n arwain at gynnwys sydd o safbwynt y Gymraeg: yn gywir yn ieithyddol, mewn cywair priodol, yn defnyddio termau addas ac sydd yn sensitif yn ddiwylliannol. Mae gofyn i bob testun Cymraeg sy'n cael ei gynhyrchu gan AI gael ei adolygu gan aelod o staff sy'n gallu asesu a ydy'r testun yn cyrraedd y gofynion hyn.
5. Gall staff gynnal eu hadolygiadau perfformiad yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. Os nad yw'r un fyddai fel rheol yn cynnal yr adolygiad yn gallu siarad Cymraeg, mae'n bosib trefnu i aelod arall o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg i wneud hynny.
6. Bydd ffurflenni yn ymwneud â chyflogaeth yn ddwyieithog.
7. Mae gan bob aelod o staff hawl i ymwneud â'r broses gwynion / apeliadau / disgyblu yn Gymraeg a bydd y Brifysgol yn parchu eu dewis iaith drwy gydol y broses.
8. Bydd mewnwyd y Brifysgol yn ddwyieithog.
9. Bydd Cysgliad ar gael ar holl gyfrifiaduron y Brifysgol yn ogystal â rhyngwynebau Cymraeg rhaglenni Microsoft.
10. Bydd y Brifysgol yn ystyried y Gymraeg wrth bwrcasu pob system newydd. Os nad oes rhyngwyneb Cymraeg ar gael drwy'r system ei hun, bydd y Brifysgol yn defnyddio Linguaskin neu debyg er mwyn darparu rhyngwyneb Cymraeg lle bo hynny'n bosib.
11. Bydd adnodd digidol CymorthCymraeg y Brifysgol yn darparu cefnogaeth i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

---

<sup>3</sup> [Modelau Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg](#)

12. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ei wybodaeth am sgiliau iaith staff yn gyfredol drwy systemau Adnoddau Dynol. Bydd y Brifysgol yn atgoffa staff yn rheolaidd o'u gallu i newid eu disgrifiad lefel iaith drwy system itrent. asesu sgiliau iaith staff drwy holiadur ar-lein bob tair mlynedd
13. Bydd y Brifysgol yn darparu ystod eang o wersi Cymraeg am ddim i staff yn ystod oriau gwaith drwy Ganolfan Bedwyr.. Bydd staff hefyd yn gallu mynychu cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y gymuned gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin yn ddi-dâl.
14. Bydd hyfforddiant ar y Polisi Iaith yn un o gyrsiau hyfforddi mandadol y Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ei holl gyrsiau mandadol ar gael yn ddwyieithog.
15. Bydd y Brifysgol yn darparu amrediad o hyfforddiant datblygu proffesiynol drwy'r Gymraeg. Pan fydd darparwr allanol yn cael ei ddefnyddio, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i gynnal cwrs cyfatebol yn Gymraeg. Y darparwr allanol fydd yn gyfrifol am drefnu a thalu am gyfieithiadau os oes angen.
16. Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth am y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio yn y Brifysgol yn ystod sesiynau cynefino staff newydd.
17. Bydd y Brifysgol yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, hyfforddiant am y polisi iaith a hyfforddiant ar sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd darpariaeth benodol i reolwyr ar reoli mewn cyd-destun dwyieithog.
18. Bydd y Brifysgol yn annog staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo lanyards iaith Gwaith / arddangos bathodyn iaith Gwaith / dysgu Cymraeg ar ddrysau eu swyddfeydd neu ar gefndiroedd rhithiol.
19. Mae'r Brifysgol yn annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol yn y cnawd, cyfarfodydd ar-lein a chyfarfodydd hybrid. Bydd rhai cyfarfodydd yn rhai penodedig ddwyieithog a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Bydd cofnodion cyfarfodydd dwyieithog ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gall gwahanol bwyllgorau o fewn ysgolion ac adrannau gwasanaeth hefyd wneud cais am wasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen. Mae canllawiau ar gyfarfodydd dwyieithog ar gael ar wefan Canolfan Bedwyr.
20. Bydd dulliau cyfathrebu corfforaethol yn ddwyieithog (e.e. Bwletin staff, e-bost, llythyr, agenda yn cyfarch staff yn gyffredinol).
21. Bydd negeseuon e-bost at grwpiau o staff (e.e. penaethiaid ysgol, cynrychiolwyr gweinyddol, aelodau pwyllgorau'r Brifysgol) sy'n ymwneud â materion swyddogol (e.e. datblygiadau polisi, hysbysiadau pwysig, cyfarfodydd ffurfiol) yn ddwyieithog (os nad yw'r sawl sy'n gyrru'r e-bost yn gwybod beth yw dewis iaith pob unigolyn ar y rhestr).
22. Os oes e-bost yn cael ei yrru at aelod unigol o staff gyda'r bwriad ei fod yn cael ei yrru ymlaen at grŵp o staff (e.e. o fewn yr ysgol) yna bydd yr e-bost gwreiddiol yn ddwyieithog.

23. Os oes angen gyrru gwybodaeth gan drydydd parti ymlaen drwy e-bost at grwpiau o staff, nid oes angen cyfieithu'r deunyddiau gan y trydydd parti ond dylid rhoi nodyn dwyieithog ar ddechrau'r e-bost (e.e. gweler isod / see below). Os yw'r trydydd parti wedi'i leoli yng Nghymru (yn enwedig cyrff cyhoeddus) dylid gofyn am fersiwn ddwyieithog o'r ddogfen.

## **Y GYMRAEG WRTH LUNIO POLISIÂU, CYNLLUNIO PROJECTAU A DYFARNU GRANTIAU A CHYMORTH ARIANNOL**

*Mae canllawiau a chefnogaeth ar sut i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i bolisiâu a phrojectau a phrosesau dyfarnu grantiau a chymorth ariannol ar gael gan Ganolfan Bedwyr.*

1. Bydd Prifysgol Bangor yn prif-ffrydio'r Gymraeg wrth lunio polisiâu gan ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg a lles y Gymraeg ymhob agwedd ar benderfyniadau polisi.
2. Bydd Prifysgol Bangor yn gweithredu gyda'r nod o warchod sefyllfa'r Gymraeg a hybu a hwyluso defnyddi o'r iaith a sicrhau nad yw polisiâu a mentrau'r Brifysgol yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
3. Bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu polisiâu ym mhob maes gwaith ar draws y sefydliad.
4. Bydd Prifysgol Bangor yn datblygu polisiâu a mentrau penodol sy'n creu neu'n hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
5. Wrth ymchwilio a / neu ymgynghori yn ystod y cyfnod o ddatblygu polisi neu strategaeth, bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau bod y rhai y mae'r Brifysgol yn ymgynghori gyda nhw yn gynrychioliadol o ddefnyddwyr y gwasanaeth neu wasanaethau perthnasol sy'n gallu siarad Cymraeg.
6. Bydd strwythur a phroffil staffio unrhyw wasanaeth neu fenter newydd yn hwyluso daprau gwasanaethau yn unol â dyletswyddau'r Brifysgol o dan Safonau'r Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu strwythurau newydd a / neu ail strwythuro.
7. Bydd pob deunydd a gyhoeddir (ar bapur neu yn electronig) sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
8. Trwy bwyllgorau'r Brifysgol ac Aseidiadau Effaith y Gymraeg bydd y Brifysgol yn asesu effaith a chanlyniadau polisi (newydd neu ddiwygiedig) ar y Gymraeg.
9. Bydd y Brifysgol yn monitro cydymffurfiaeth y sefydliad, neu unrhyw drydydd parti sy'n gweithredu ar ei ran, o ran polisiâu a mentrau mewn perthynas â'r Gymraeg.
10. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y staff, yr ymgynghorwyr a'r llyegwyr sy'n gyfrifol am lunio polisiâu yn ymwybodol o ddyletswyddau'r Brifysgol o dan y Safonau Iaith Gymraeg.
11. Wrth lunio mentrau newydd, bydd y Brifysgol yn ystyried anghenion penodol cynulleidfa Gymraeg ac yn cynnig fersiynau wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer cynulleidfa Gymraeg pan fo angen.

12. Wrth ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol, ble bo hynny'n briodol, bydd y Brifysgol yn ystyried (1) yr effeithiau os o gwbl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (2) sut y gellir gwneud neu weithredu penderfyniad fel ei fod yn cael effaith cadarnhaol / mwy cadarnhaol neu ddim yn cael effaith andwyol / llai andwyol ar y Gymraeg (3) a oes angen gwybodaeth ychwanegol er mwyn asesu effaith dyfarnu'r grant neu gymorth ariannol ar y Gymraeg.

## Y GYMRAEG A PHROSESAU GWNEUD PENDERFYNIADAU A CHADW COFNODION A CHOFNODI CWYNION

1. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu trafod yn eang yn y Brifysgol ac ar lefel Pwyllgor Gweithredu a Chyngor y Brifysgol. Bydd yn gwneud hyn drwy sicrhau bod strwythur pwyllgorau cadarn mewn lle.
2. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod cofnodion manwl yn cael eu cadw o faterion ystadegol yn ymwneud â'r Gymraeg (e.e. nifer a chanran y gweithlu sy'n siarad Cymraeg, nifer y swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol' a hysbysebwyd ayb).
3. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod cofnod o'r cwynion sydd yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael ei gadw a bod unigolion yn gwybod sut y dylent ddwyn cwyn yn ymwneud â'r Gymraeg i sylw'r Brifysgol.
4. Bydd cofnod o bob cwyn sy'n cael ei derbyn am ddiffyg cydymffuriad â'r Safonau Iaith Gymraeg, neu am ddefnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol yn y sefydliad, yn cael ei gadw.
5. Bydd rhestr o'r cwynion sy'n cael eu derbyn yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Risg Cyngor y Brifysgol.
6. Os yw myfyriwr, aelod o staff neu unigolyn neu grŵp yn dymuno tynnu sylw'r Brifysgol at ddiffygion yn ei hymwneud â'r Gymraeg, fe ddylent gyfeirio'r gŵyn yn y lle cyntaf at y Pennaeth Polisi a Datblygu yng Nghanolfan Bedwyr..
7. Bydd y Pennaeth Polisi a Datblygu yn asesu'r gŵyn. Os tybir ei bod yn arwydd o ddiffyg cydymffuriad â Pholisi Iaith y Brifysgol a / neu Safonau'r Iaith Gymraeg, bydd y gŵyn yn cael ei hymchwilio gyda golwg ar ei datrys yn anffurfiol yn y lle cyntaf.
8. Os yw'r mater yn un eang ei oblygiadau neu yn gŵyn ddifrifol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth, bydd y mater yn cael ei ddwyn i sylw'r Dirprwy Is-Ganghellor Cyfrwng Cymraeg, ac yna i sylw Pwyllgor yr Iaith Gymraeg a Diwylliant a / neu Bwyllgor Materion y Gymraeg y Cyngor.
9. Bydd y Pennaeth Polisi a Datblygu yn adrodd yn ôl i'r sawl a achwynodd am ganfyddiadau unrhyw ymchwiliad.
10. Os yw cwyn yn ymwneud ag ymddygiad aelod o staff, dylid cyfeirio'r mater at yr adran Adnoddau Dynol o dan drefn berthnasol.
11. Byddwn yn darparu hyfforddiant i staff ynglŷn â delio â chwynion a datganiadau o anfodlonrwydd am weithrediad y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg yn ystod sesiynau cyffredinol ar ddelio â chwynion, yn yr hyfforddiant ar reoli mewn cyd-destun dwyieithog ac mewn sesiynau hyfforddi perthnasol i adrannau a charfannau penodol o staff.

STRWYTHUR PWYLLGORAU YN YMWNEUD Â'R GYMRAEG

